# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 3 Medi 2018 am 7.30yh**
**yn Festri Capel Penyparc.**

**Presennol:**

Cyng. Dilwyn Jenkins *(Cadeirydd)*
Cyng. Llinos Price
Cyng. Des Davies
Cyng. Lloyd Jenkins
Cyng. Auriol Williams *(Is Gadeirydd)*
Cyng. Ann Stokoe
Cyng. Matthew Morgan
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

1. **Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i gyfarfod mis Medi. Llongyfarchodd Teifion Morgan, Pencefen, Mwnt, ar ei lwyddiant drwy gynrychioli Cymru mewn treialon cŵn defaid yn Iwerddon. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr o longyfarchiadau i Teifion. Diolchodd i'r Cyng. Matthew Morgan am rowlio'r llwybr arfordir o Olygfan Gwbert i'r Flat Rock. Llongyfarchwyd trefnyddion y Carnifal ym mhentref Penyparc ar lwyddiant y diwrnod a hefyd Carnifal a Sioe Gynnyrch Ferwig.
Siom oedd deall bod cleifion Meddygfa Ashleigh yn Aberteifi wedi derbyn llythyron yn datgan bod y feddygfa yn cau o fewn chwe mis; cynhelir cyfarfod agored ar 20 Tachwedd rhwng 1:30yp a 6:30yh yn Neuadd y Dref, Aberteifi, lle bydd gan y cleifion gyfle i drafod unrhyw bryderon gyda staff y Bwrdd Iechyd.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyngh. Clive Davies (Aelod lleol o'r Cyngor Sir) Lyn Jones.

3. **Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Ann Stokoe bod cofnodion mis Gorffennaf yn gywir.

4. **Datgelu buddiannau personol:** Y Cyng. Llinos Price (cais am rodd ariannol i Gapel Penyparc.

5. **Materion yn codi:**
   (a) **Cysgodfan Bysiau Penyparc:** Mae Mr Mark Toft wedi archwilio'r safle ynglŷn â gosod sylfaen newydd iddo. Disgwylir pris am y gwaith. Cytunodd y Cyng. Llinos Price a Matthew Morgan drafod gyda swyddog y Cyngor Sir ynglŷn â'r gwaith ar osod y sylfaen i'r gysgodfan.

6. **Ceisiadau am Gymorth Ariannol**
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig. | I'w ohirio tan dderbyn cadarnhad bod yr Hen Ysgol wedi ei phrynu oddi wrth y Cyngor Sir. |
| Cyngor ar Bopeth | £150.00 |
| Gŵyl Fawr Aberteifi | £150.00 |
| Gofal Mewn Galar | £50.00 |
| Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru | I'w drafod ym mis Hydref 2018 |
| Capel y Bedwyddwyr Penyparc | I'w drafod ym mis Hydref 2018 |

7. **Cynllunio:**

| | *Cyfeiriad a Bwriad* | *Sylwadau'r Cyngor* |
|---|---|---|
| A180637 | Y Shed, Ffynnon Grog, Mwnt.<br>"Newid defnydd adeilad amaethyddol a'r iard i ddefnydd cymysg o amaethyddiaith a digwyddiadau dros dro, gan gynnwys mannau pasio newydd mewn priffordd gyhoeddus, mynediad, cyfleusterau toiled a gwaith cysylltiedig. | Gydag un aelod yn ymatal ei phleidlais, cytunwyd bod y Cyngor yn cefnogi'r cais. |
| A180641 | Tir tu ôl i Madiwela, Gwbert.<br>Codi tri annedd | Mewn egwyddor, mae'r Cyngor yn barod i gefnogi'r cais gyda'r amod bod y tai i'w gwerthu er mwyn perchnogaeth tymor-hir yn unig. |

Anfonwyd y sylwadau uchod ymlaen ar 19 Gorffennaf.

| *Rhif y Cais* | *Cyfeiriad a Bwriad* | *Sylwadau'r Cyngor* |
|---|---|---|
| A180660 | Canllefaes Uchaf, Penyparc "Erection of an agricultural building for housing cattle" | Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais. |
| A180687 | Plot 1 Adjacent to Crib y Gwynt, Ferwig: "Erection of an affordable dwelling (proposed first floor and side extension to previously approved bungalow [A090810] and single garage/carport.) | Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais. |

Anfonwyd y sylwadau uchod ymlaen ar 6 Awst

| *Rhif y Cais* | *Cyfeiriad a Bwriad* | *Sylwadau'r Cyngor* |
|---|---|---|
| A180603 | Tynewydd Farm Blaenannerch "The proposal is for change of use of a small area of boundary of an improved agricultural field to that of dual use of agricultural and glamping. The application is for change of use only, there will be no physical works or development associated with the change of use" | Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais. |

Anfonwyd y sylwadau uchod ymlaen ar 6 Awst

| *Rhif y Cais* | *Cyfeiriad a Bwriad* | *Sylwadau'r Cyngor* |
|---|---|---|
| A180692 | Y Badell Aur, Penyparc: "Newid defnydd ôl-weithredol i newid rhan o'r bwyty i fflat un ystafell wely." | Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais. |

## 8. Materion Ariannol

**Biliau wedi eu talu:**

| | | |
|---|---|---|
| Cyflog y Clerc (Gorffennaf 2018) | 101703 | £308.77 |
| Costau'r Clerc (Gorffennaf 2018) | 101704 | £49.20 |
| Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Gorffennaf 2018) | 101705 | £77.20 |
| SWALEC (Trydan Ystafelloedd Newid) | 101706 | £160.91 |
| Cyflog y Clerc (Awst 2018) | 101707 | £308.77 |
| Costau'r Clerc (Awst 2018) | 101708 | £39.00 |
| Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Awst 2018) | 101709 | £77.20 |
| Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc (Glanhau'r ystafelloedd newid) | 101710 | £225.00 |
| David Evans a'i Feibion (Ysgythru bar cadwyn y Cadeirydd) | 101711 | £11.70 |
| Telemat: Tâl blynyddol am y safle we a'r e-bost | 101712 | £72.00 |

Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod y biliau uchod yn cael eu talu.

**Materion ariannol eraill**

**Derbyniadau:** Yr ail daliad o'r Praesept am y flwyddyn 2018-19 = £6,666.67
**Grant Thornton (Archwilydd Allanol Cymru)** *(gweler Gohebiaeth rhif 31)*

## 9. Gohebiaeth:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 22 | Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Cymru (PGIAC) | Dogfen Ymgynghori Darpariaeth Lawdriniaeth Thorasig Oedolion yn Ne Cymru | Mae'r llythyr wedi ei flaenyrru i'r aelodau gyda'r wefan berthnasol i ymateb erbyn 27 Awst.<br>Mae'r dogfennau ar gael gan y Clerc. |
| 23 | Cyngor Sir Ceredigion (Adran Cyllid a Chaffael) | Ail daliad y praesept am y flwyddyn ariannol 2018-19 (£6,666.67) | Nodwyd |
| 24 | Cyngor Sir Ceredigion (Adran Cyllid a Chaffael) | Llythyr oddi wrth Mrs Meinir Davies yn gofyn am gadarnhad ynglŷn â hawlio grant am y gysgodfan ym mhentref Penyparc. | Mae'r Clerc i gysylltu gyda Mrs Davies i gadarnhau y bydd y gwaith wedi ei orffen erbyn mis Mawrth 2019. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 25 | Clwb Rygbi Aberteifi | Llythyr yn gofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r cae chwarae ym Mhenyparc i hyfforddi cyn dechrau'r tymor newydd. | Rhoddwyd caniatâd I'r Clwb Rygbi ddefnyddio'r safle dros dro. |
| 26 | Clynfyw CIC Care Farm | Taflenni "Mynydd i'r Môr", 26-30 Medi.<br>Cais yn gofyn am gymorth ymarferol i gynorthwyo gyda'r prosiect. | Mae'r wybodaeth wedi ei gosod yn yr hysbyfyrddau |
| 27 | Cyngor Sir Ceredigion (Alan Haird) – Cynllluniau Lle | Diweddariad | Gweler sylwadau'r Cyng. Clive Davies |
| 28 | Cyngor Sir Ceredigion (Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) | Mae rhif ffôn cyfredol 08456 015 392 y Tîm Dyletswydd Brys – Gofal Cymdeithasol – yn newid o 1 Medi.<br>**Y rhif ffôn newydd i gysylltu â Gofal Cymdeithasol mewn argyfwng y tu allan i oriau fydd: 0300 4563554** | Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 17 Awst.<br><br>Mae'r wybodaeth wedi ei gosod yn yr hysbyfyrddau. |
| 29 | Cyngor Sir Ceredigion (Adran Drwyddedu) | Ymgynghoriad Cyhoeddus:<br>"Amodau Trwydded Ac Arweiniad Ar Gyfer Bridwyr Cŵn Cartref" (drafft).<br>Disgwylir sylwadau erbyn 14 Medi. | Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 17 Awst.<br><br>Mae copi caled o ddrafft "Appendix A" ar gael gan y Clerc. |
| 30 | Cyngor Sir Ceredigion (Steffan Jones, Swyddog Rheoli Cyfeiriadau) | Cais i drafod enw ar stad newydd ym mhentref Penyparc: "Maes yr Efail".<br>Derbynnir cynigion gwahanol i'w ystyried.<br>Ymgynghoriad hyd 14 Medi. | Mae'r aelodau yn derbyn yr awgrym yn unfrydol. |
| 31 | Grant Thornton (Archwilydd Cyffredinol Cymru) | *Adroddiad Blynyddol y cyfrifon am 2017-18.*<br>Mae tystysgrif o Gyfrifon Ariannol y Cyngor am y flwyddyn 2017-18 wedi ei dderbyn ac wedi ei arwyddo gan yr Archwilydd Allanol ar 16 Awst 2018.<br>Mae'r daflen "Hysbysiad o Gwblhau'r Archwiliad" wedi ei osod yn yr hysbysfyrddau am 14 diwrnod yn olynol o 3 Medi.<br>Ni ddylai taliadau i lanhawyr Ystafell Barclay gael eu cynnwys yn "Costau Staff". | Cynghorir y Cyngor fel a ganlyn gan yr Archwilydd Allanol:<br>*"The clerk has been advised to acquire a letter of engagement from the Internal Auditor and should state his independence and outline the tasks he will undertake. The Internal Auditor should not be requested to undertake tasks that might compromise his independence.*<br>*"The Notice of Appointment of Date for the Exercise of Electors' rights to be displayed for 20 working days following the approval by council.*<br>*The Council should record the employment of staff costs including expenses which are benefits (e.g. mileage, travel, etc.)"* |
| 32 | Cyngor Sir Ceredigion (Technical Services) | Ymateb yr awdurdod i gais y Cyngor i osod biniau sbwriel ym mhentref Penyparc:<br>(a) Mae'r awdurdod yn barod i osod bin a'i wacáu ar gyffordd Heol y Felin/A487 ar yr amod bod y Cyngor Cymuned yn ei brynu ac yn ei gynnal.<br>(b) Nid yw'r awdurdod yn barod i wacáu bin sbwriel ger Ystafell Berkley oherwydd ei fod yn rhy bell o'r ffordd. | (a) Y Clerc i archebu bin gyda'r Cyngor Sir i'w osod yn y man penodedig ac i drafod y costau.<br>(b) Derbyniwyd penderfyniad y Cyngo Sir. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 33 | FUW Undeb Amaethwyr Cymru) | Cynhelir cyfarfod agored i ffermwyr ac eraill sydd â diddordeb yn nyfodol amaethyddiaeth Cymru er mwyn clywed am gynnig Llywodraeth Cymru i ddileu taliadau uniongyrchol yn raddol, sy'n cyfrif am 75% o incwm ffermydd Cymru, a chyflwyno un cynllun amaeth-amgylchedd/Nwyddau Cyhoeddus.<br>Nos Fercher, 5 Medi yng Nghlwb Rygbi Aberaeron am 7.30yh.<br>*(Nodyn:*<br>*Derbyniwyd yr wybodaeth yma ar 1 Medi)* | Gan fod yr amser yn brin, blaenyrrwyd y copi i'r aelodau ar 1 Medi.<br>Nodwyd. |
| 34 | Capel y Bedyddywr Penyparc | Cais am gymorth ariannol a gwahoddiad i ymweld â'r capel ar ei newydd wedd. | Bydd y cais yn cael eu drafod yng nghyfarfod mis Hydref. |

**10. Materion Eraill:**

(a) **Data Diogelwch (GDPR):** "Polisi preifatrwydd" i'w gynnwys ar y safle we.
(b) **Siglen ar faes chwarae Cae Gwyrdd, Penyparc:** Mae Mr John Morris wedi symud sedd y siglen sydd wedi ei difrodi o'r cae chwarae. Pris am un newydd: £52. Gofynnwyd i'r Clerc archebu sedd i'r siglen.
(c) **Pot blodau tu allan i garej Robert Davies, Penyparc:** Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at berchennog y garej gan ofyn iddo symud y pot blodau yn ôl er mwyn diogelwch i yrrwyr cerbydau sy'n gadael y blaencwrt.
(d) **Parcio ar gornel y fynedfa i Glwb Cychod Teifi yn Patch:** Cytunwyd gofyn i'r aelod lleol gysylltu gyda swyddog adran ffyrdd y cyngor sir i ddatrys y broblem.
(e) **Bore Coffi Macmillan:** Cynhelir bore coffi yn Hen Ysgol y Ferwig ar 19 Medi.

**11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies:**

(a) **Hen Ysgol y Ferwig:** Mae cais wedi ei anfon at Gronfa'r Loteri am arian tuag at brynu a gwaith adeiladu yr Hen Ysgol, Ferwig.
(b) **Cynlluniau Lle:** Mae'r gwaith trefnu yn parhau gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â chyllideb**.**

**12. Dyddiad y cyfarfod nesaf** 1 Hydref (F)

**Cyfarfodydd y Cyngor am 2018:** 5 Tachwedd (YB) 3 Rhagfyr (F)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Minutes of the Ordinary Meeting held on 3 September, 2018 at 7.30pm**
**at The Vestry, Penyparc Chapel.**

**Present**

| | |
|---|---|
| Cllr Dilwyn Jenkins *(Chairperson)* | Cllr Auriol Williams *(Vice-Chair)* |
| Cllr Llinos Price | Cllr Ann Stokoe |
| Cllr Des Davies | Cllr Matthew Morgan |
| Cllr Lloyd Jenkins | Mrs Hildreth Owen (*Clerk*) |

1. **Chairperson's welcome and Personal Matters.** The Chairperson, Cllr Dilwyn Jenkins, welcomed everyone to the September meeting. He congratulated Teifion Morgan, Pencefen, Mwnt on being chosen to represent Wales at the sheep dog trials in Ireland. The Clerk was asked to send a letter of congratulations to Teifion. Cllr Jenkins thanked Cllr Matthew Morgan for rolling the coastal path from the Gwbert Viewpoint to Flat Rock. The committee members of both the Penyparc and Ferwig Carnivals were congratulated on organising successful days.
Patients of Ashleigh Health Centre in Cardigan have received notification that the surgery will close in six months' time. A meeting with the Health Board is planned for 20 November from 1:30pm to 6:30pm in the Guildhall, Cardigan, where patients will be able to discuss their concerns and welfare with Health Board officers.

2. **Apologies for absence:** Cllrs Clive Davies (local member of the County Council), Lyn Jones

3. **Minutes of the previous meeting.**
It was proposed by Cllr Lloyd Jenkins and seconded by Cllr Ann Stokoe that the minutes of the July meeting be recorded as correct.

4. **Declaration of personal interests:** Cllrs. Dilwyn Jenkins, Eurig Lloyd (Planning application A180637 "Y Sied", Mwnt).

5. **Matters arising:**
(a) **Penyparc Bus Shelter:** Mr Mark Toft has inspected the site for placing a foundation base for the shelter. An estimate of the cost is awaited from Mr Toft. Cllrs Llinos Price and Matthew Morgan agreed to discuss the exact location of the shelter with an officer of the County Council.

6. **Requests for financial support.**
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig.
*(Payment has been delayed until confirmation is received that the Old School has been bought from the County Council.)*

| | |
|---|---|
| Citizens' Advice Bureau | £150.00 |
| Gŵyl Fawr Aberteifi | £150.00 |
| Cruse Bereavement Care | £50.00 |
| Bobath Children's Therapy Centre | To be discussed at the October meeting. |
| Penyparc Chapel | To be discussed at the October meeting. |

7. **Planning:**

| *Application No.* | *Address and purpose* | *Council's observations.* |
|---|---|---|
| A180637 | Y Shed, Ffynnon Grog, Mwnt. "Change of use of agricultural building and yard to mixed use of agricultural and temporary events venue, including new passing spaces in public highway, access, toilet facilities and associated works." | With one member abstaining, the council supports the application. |
| A180641 | Land to rear of Madiwela, Gwbert. Erection of three dwellings. | In principle, council supports the application with the condition that dwellings be sold for long-term ownership only. |

Observations forwarded to the County Council on 19 July.

| Application No. | Address and purpose | Council's observation |
|---|---|---|
| A180660 | "Erection of an agricultural building for housing cattle" | Council supports the appplication |
| A180687 | Plot 1 Adjacent to Crib y Gwynt, Ferwig: "Erection of an affordable dwelling (proposed first floor and side extension to previously approved bungalow [A090810] and single garage/carport.) | Council supports the appplication |

Observations forwarded to the County Council on 6 August.

| Application No. | Address and purpose | Council's observation |
|---|---|---|
| A180603 | Tynewydd Farm Blaenannerch "The proposal is for change of use of a small area of boundary of an improved agricultural field to that of dual use of agricultural and glamping. The application is for change of use only, there will be no physical works or development associated with the change of use" | Council supports the application |

Observations forwarded to the County Council on 6 August.

| Application No. | Address and purpose | Council's observation |
|---|---|---|
| A180692 | Y Badell Aur, Penyparc: "Retrospective change of use to change part of the restaurant to a one bedroom flat." | Council supports the application |

## 8. Financial Matters.

**Bills paid:**

| | | |
|---|---|---|
| Clerk's salary (July 2018) | 101703 | £308.77 |
| Clerk's expenses (July 2018) | 101704 | £49.20 |
| HMRC: Clerk's Income Tax (July 2018) | 101705 | £77.20 |
| SWALEC (electricity for Ystafell Berkley changing rooms) | 101706 | £160.91 |
| Clerk's salary (August 2018) | 101707 | £308.77 |
| Clerk's expenses (August 2018) | 101708 | £39.00 |
| HMRC: Clerk's Income Tax (August 2018) | 101709 | £77.20 |
| Penyparc YFC (cleaning of Ystafell Berkley changing rooms) | 101710 | £225.00 |
| David Evans & Sons (Bar and engraving of Chairman's insignia) | 101711 | £11.70 |
| Telemat: Annual maintenance of website and e-mail | 101712 | £72.00 |

It was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Des Davies that the above bills be paid..

**Other financial matters**

**Receipts:** Second instalment of the precept for 2018-19 = £6,666.67
**Grant Thornton (External Auditor)** *(see Correpondence no. 31)*.

## 9. Correspondence:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 22 | Welsh Health Specialised Services Committee (WHSSC) | The document "Thorasic Surgery Services in South Wales" | Forwarded to members on 27 August.<br>Appropriate website attached.<br>Hard copy is available with the Clerk. |
| 23 | Ceredigion County Council (Finance Dept.) | Second payment of the precept for 2018-19 (£6,666.67) | Noted |
| 24 | Ceredigion County Council (Finance Dept.) | Letter from Mrs Meinir Davies requesting confirmation that the bus shelter at Penyparc will be completed by 1st March 2019. | The Clerk has contacted Mrs Davies confirming that the work will be completed by 1st March 2019. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 25 | Cardigan Rugby Club | Letter requesting permission to use the playing field at Penyparc for rugby training before commencement of the new season. | Permission was granted for temporary use of the playing field. |
| 26 | Clynfyw CIC Care Farm | Leaflet "Mynydd i'r Môr", 26-30 September. Application requesting practical support of the project. | Poster has been displayed in notice boards. |
| 27 | Ceredigion County Council<br>(Alan Haird)<br>Place Plans | Update | See Cllr Clive Davies's report. |
| 28 | Ceredigion County Council<br>(Social Care team) | The current telephone number 08456 015 392 for the Emergency Duty Team for Social Care is changing as from 1st September 2018.<br>**The new telephone number to contact Social Care Out of Hours in an emergency will be: 0300 4563554** | Forwarded to members on 17 August.<br><br>Information has been displayed in notice boards. |
| 29 | Ceredigion County Council<br>(Licensing Department) | Draft Licence Conditions in respect of those wishing to breed dogs from their domestic premises.<br>Response to be received by 14 September | Forwarded to members on 17 August.<br><br>A hard copy of the draft, "Appendix A", is available with the Clerk. |
| 30 | Ceredigion County Council<br>(Steffan Jones, Address Management Officer) | Application to consider the proposed name for the new development in Penyparc: "Maes yr Efail". Alternative names wil be considered if received by end of September. | The councillors unanimously accepted the name as being appropriate and correct. |
| 31 | Grant Thornton<br>(Auditor General for Wales) | The certified Annual Return for Y Ferwig Community Council for the year ended 31 March 2018 has been signed by the External Auditor on 16 August 2018.<br>The "Notice of Conclusion of Audit" document has been posted on notice boards for 14 days from 3 September.<br>It was advised that the cleaners of the Ystafell Barclay changing rooms should not be included in staff costs. | The Council was advised as follows:<br>*"The clerk has been advised to acquire a letter of engagement from the Internal Auditor and should state his independence and outline the tasks he will undertake. The Internal Auditor should not be requested to undertake tasks that might compromise his independence.*<br>*"The Notice of Appointment of Date for the Exercise of Electors' rights to be displayed for 20 working days following the approval by council. The Council should record the employment of staff costs including expenses which are benefits (e.g. mileage, travel, etc.)"* |
| 32 | Cyngor Sir Ceredigion<br>(Technical Services) | The response of the Council to requests to locate litter bins in the village of Penyparc:<br>The authority is prepared to place a bin on the Heol y Felin/A487 main road junction and to empty daily.<br>The authority is not prepared to empty the bin if placed near the Ystafell Berkley point as it is too distant from the regular rubbish collection route. | The Clerk was requested to order a bin from the County Council. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 33 | FUW Undeb (Amaethwyr Cymru) | A meeting will be held at Aberaeron Rugby Club on 5 September at 7.30pm where farmers and others with an interest in the future of Welsh agriculture can hear the Welsh Government's proposals to phase out Direct Payments and replacing them with a single public goods environmental scheme. | Due to the latenenss of receiving the notification, the copy was forwarded to members. Copy was received on 1 September. |
| 34 | Penyparc Baptist Chapel | Application for financial support and an invitation to inspect the refurbished building. | The application will be discussed at the October meeting. |

**10. Other Matters:**

(a) **General Data Protection Regulation: "Privacy Policy"**: It was agreed to post the information on the Council website.

(b) **The Cradle Seat on the Cae Gwyrdd swing:** Mr John Morris has removed the damaged seat for health and safety purposes. The Clerk was requested to order a new seat at a cost of £52 from Playdirect.

(c) **Flower containers outside the Robert Davies garage at Penyparc:** The Clerk was asked to request the owner to move the containers to a safer location to enable motorists to leave the forecourt safely.

(d) **Parking of vehicles on the corner of the entrance to the Teifi Boat Club at Patch:** It was agreed to request the local county councillor to contact the Highways Department of the County Council to discuss the solution to ease the potential hazard at the corner.

(e) **Macmillan Coffee Morning:** A coffee morning in aid of the charity will be held on 19 September at the Old School, Ferwig.

**11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies:**

(a) **Ferwig Old School:** An application has been made with the Lottery Fund for funding to buy and refurbish the Old School.

(b) **Place Plans:** Plans are continuing with the County Council regarding budgeting of the scheme.

**12. Date of next meeting:** 1 October 2018 at Ferwig Old School

**Dates of Council Meetings for 2018:** 3 November (YB) 3 December (F)

*Denotes:* F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting